Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 25 Hydref 2012**

Amser:
**09:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polisi: Llinos Dafydd**
**Deddfwriaeth: Sarah Beasley**
029 2089 8403/8032
PwyllgorIGC@cymru.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Craffu ar adroddiad blynyddol Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (09.30 - 10.30) (Tudalennau 1 - 45)

HSC(4)-28-12 papur 1
Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

### 3. Papurau i'w nodi (Tudalennau 46 - 49)

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 & 11 Hydref

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 5 (10.30)

**Sesiwn breifat**

### 5. Ymchwiliad i Ofal Preswyl ar gyfer Pobl Hŷn - Trafod yr adroddiad drafft (10.30 - 12.00)

**Egwyl 12.00 - 13.15**

**Sesiwn gyhoeddus**

## 6. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Drafft – Sesiwn friffio ffeithiol gan swyddogion Llywodraeth Cymru (13.15 – 14.00)

Dr Chris Jones, Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru a'r Dirprwy Brif Swyddog Meddygol
Grant Duncan, Dirprwy Gyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Feddygol, Llywodraeth Cymru

Dogfennau ymgynghori'r Llywodraeth
Dogfen ymgynghori
Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) Drafft
Memorandwm Esboniadol Drafft

**Comisiynydd**
**Pobl Hŷn Cymru**
Adroddiad y Comisiynydd
2011/12

# I WNEUD CYMRU YN LLE DA I HENEIDDIO YNDDO, NID I RAI POBL YN UNIG, OND I BAWB

Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru

**Comisiynydd**
**Pobl Hŷn Cymru**
Adroddiad y Comisiynydd
2011/12

# Llais ac eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru

Sarah Rochira
Comisiwn Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn
08442 640670
E-bost
gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan
www.olderpeoplewales.com
Trydar
@comisiwnphcymru

Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru



Tudalen 3

# Rhagair

Ym mis Mehefin 2012 dechreuais yn fy swydd fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Am y pedair blynedd nesaf, fi fydd yn gyfrifol am hyrwyddo buddiannau pobl hŷn ledled Cymru, am sefyll drostynt a siarad ar eu rhan. Gyda chymorth fy nhîm, sef y Comisiwn, ein rôl yw gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth, eiriolaeth a chefnogaeth i bobl hŷn a sicrhau bod cyrff cyhoeddus ar draws Cymru, megis Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol, y GIG a gwasanaethau rheoledig eraill yn ystyried eu buddiannau ac yn rhoi sylw i'r buddiannau hynny yn eu gwaith.

Hoffwn ddechrau drwy dalu teyrnged i fy rhagflaenydd, Ruth Marks MBE, a sefydlodd y Comisiwn yn 2008. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adlewyrchu'r gwaith yr oedd hi wedi'i arwain ond yr wyf fi, fel y Comisiynydd cyfredol, yn atebol amdano. Hoffwn hefyd ddiolch i staff y Comisiwn am eu hymrwymiad a'u hymroddiad i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn gyfle i mi nodi'r hyn mae'r Comisiwn wedi bod yn ei wneud i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol ond, yn fwy na hynny, mae'n gyfle i mi ddangos sut rydym wedi bod yn cynrychioli ac yn sefyll dros bobl hŷn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n dangos yr effaith mae ein gwaith wedi'i gael ac yn amlygu rhai o'r materion y dylai Cymru ganolbwyntio arnynt yn fy marn i. Mae hefyd yn gyfle i mi amlinellu ein blaenoriaethau a'n gwaith ar gyfer 2012/13.

Dylai unrhyw adroddiad blynyddol gan gorff cyhoeddus ddechrau gyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae yna dros 700,000 o bobl 60 oed a hŷn yng Nghymru, sef y grŵp

oed rydw i'n ei gynrychioli. Y rhain yw asgwrn cefn ein cenedl, ein cymunedau a'n teuluoedd. Mae'r wybodaeth, y profiad a'r cymorth ymarferol maent yn ei roi i Gymru yn anfesuradwy. Trwy wirfoddoli, bod yn ofalwyr, rhoi cymorth fel teidiau a neiniau ac mewn sawl ffordd arall, nhw yw gweithlu anweladwy Cymru. Dengys ymchwil gan y WRVS (Gwasanaeth Brenhinol Gwirfoddol y Merched gynt) bod pobl hŷn werth £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru, sef bron i £3 miliwn y dydd.[1] Mae eu gwasanaeth fel gofalwyr plant a gwirfoddolwyr ei hun werth £750 miliwn y flwyddyn. Rhaid i bawb ohonom yng Nghymru gydnabod pobl hŷn fel ased gwerthfawr, ased y dylem fuddsoddi mwy ynddo.

Mae'n bwysig ein bod yn deall pwy yw ein pobl hŷn: nid ydynt yn grŵp ar wahân ac nid oes ganddynt oll yr un anghenion. Mae'n bosib mai ychydig o gymorth yn unig y bydd ei angen ar rai, tra bydd angen cymorth a gofal sylweddol ar eraill. Gallant hefyd fod ymhlith y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Anaml iawn y bydd pobl hŷn yn cydnabod eu bod yn 'hŷn' ac nid yn ôl oed yn unig yw'r ffordd orau i ddiffinio pobl. Yr amgylchiadau y mae pobl ynddynt a'r graddau y mae ganddynt lais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau sy'n aml yn peri i bobl fod angen cymorth a gofal.

Ein mamau, ein tadau, ein neiniau a'n teidiau, sef y rhai rydym yn eu caru ac sy'n bwysig i ni, yw ein pobl hŷn. Ond weithiau mae rhai heb deulu, heb ffrindiau neu heb unrhyw un i droi ato. Dylai cofio hyn sbarduno bob un ohonom, o fewn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, i bennu'r safonau uchaf posibl yng nghyswllt cymorth a gofal.

Rydym wedi ymrwymo ers tro yng Nghymru, drwy Lywodraeth Cymru ac ar draws y sbectrwm gwleidyddol, i gefnogi pobl hŷn ac i wrando arnynt. Gwelir tystiolaeth o hyn yn y mentrau megis

presgripsiynau am ddim, tocynnau teithio rhad ar fws, cap teg ar godi tâl am ofal cymdeithasol yn y cartref, ein Strategaeth Pobl Hŷn, ein Heiriolwyr dros Bobl Hŷn, ein rhwydwaith o Fforymau 50+ a Chydlynwyr Strategaeth 50+, heb anghofio'r ffaith ein bod wrth gwrs wedi sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru bedair blynedd yn ôl - y wlad gyntaf yn y byd i wneud hyn. Mae gennym hefyd wasanaethau cyhoeddus ardderchog, llawer o staff ymroddedig yn y gwasanaethau cyhoeddus ac mae ein Trydydd Sector a'n Sector Gwirfoddol yn glod i Gymru.  Hoffwn ganmol ar goedd y gwaith da mae gymaint o bobl eraill yn ei wneud i gefnogi pobl hŷn, yn y gwasanaethau cyhoeddus, fel gofalwyr neu fel gwirfoddolwyr. Gwn ein bod yn rhannu'r un dyhead, sef gwneud Cymru yn lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig, ond i bawb.

Er hynny, ni ddylem orffwys ar ein rhwyfau. Er bod gennym lawer i'w ddathlu o ran ein gwaith yng Nghymru (ac mae'n rhywbeth y dylem ei wneud), nid yw bywyd llawer gormod o bobl hŷn yn ddigon da.

Mae 110,000 o bobl hŷn yn byw mewn tlodi[2] ac mae pryder ynghylch dyled a'r gallu i dalu am hanfodion bywyd yn cynyddu ymysg pobl hŷn. Mae 34,000 o bobl hŷn yn dioddef camdriniaeth bob blwyddyn[3], ac eto nid yw cam-drin pobl hŷn yn cael sylw digonol. Mae llawer o bobl hŷn hefyd yn methu â chael gafael ar y gefnogaeth a'r cyfiawnder sydd eu hangen arnynt ac y maent yn ei haeddu. Dim ond 10% o bobl hŷn sy'n cymryd rhan weithredol mewn hyfforddiant sgiliau sylfaenol[4] ac mae lefelau llythrennedd digidol ymysg pobl hŷn yn fater sy'n peri pryder penodol, o gofio bod cymaint o wasanaethau a chymorth hanfodol ddim ond ar gael ar-lein erbyn hyn. Mae gan hanner y bobl sydd dros 65 oed a dwy ran o dair o bobl dros 85 gyflwr iechyd cronig gyda hanner ohonynt ag anabledd sy'n effeithio ar eu bywyd.[5]

Mae gormod o lawer o bobl hŷn yn teimlo nad oes ganddynt y wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau pwysig, ac mae gormod ohonynt yn teimlo eu bod yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn, nad yw pobl yn gwrando arnynt a bod ganddynt ddim rheolaeth dros y cymorth y maent yn ei gael. Pan fydd pobl hŷn yn gofyn am ychydig bach o help i aros yn annibynnol, yn rhy aml, nid ydynt yn cael yr help hwnnw. Yn rhy aml o lawer, rhaid i argyfwng ddigwydd cyn y caiff y cymorth hwnnw ei ddarparu. Mae llawer o'n gofalwyr yn teimlo nad oes ganddynt gefnogaeth ac maent yn ei chael yn anodd ymdopi, ac mae hynny'n dreth arnynt yn aml. Ni ddylai unrhyw un ohonom yn y gwasanaethau cyhoeddus deimlo bod hyn yn dderbyniol.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn amryw o feysydd, rhaid i ni sicrhau bod newid yn digwydd ynghynt. Rhaid i'r rheini ohonom yn y gwasanaethau cyhoeddus osod targedau heriol i'n hunain, a fydd yn arwain at welliannau sylweddol a gweladwy yn ansawdd bywyd pobl hŷn yng Nghymru. Rhaid i ni gynnal ein ffocws a'n hymrwymiad, er gwaethaf y cyfnod anodd hwn rydym i gyd yn byw ynddo, er mwyn gwneud Cymru yn lle da i heneiddio, nid i rai pobl yn unig, ond i bawb.

Sarah Rochira

[1] Ffynhonnell: WRVS (2011), 'Gold age pensioners: Valuing the Socio-Economic Contribution of Older People in the UK'

[2] Adroddiad Sefydliad Joseph Rowntree 'Monitoring Poverty and Social Exclusion 2011'

[3] Canfu The UK Study of Abuse and Neglect of Older People (2006), Prevalence Survey for the Department of Health and Comic Relief, bod 6% o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn cael eu cam-drin. Dywed Cyfrifiad 2011 bod 563,000 o bobl 65 oed a hŷn yng Nghymru

[4] Ymateb Cynghrair Henoed Cymru i Ymholiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ofal preswyl ar gyfer pobl hŷn (2011)

[5] ibid



Tudalen 8



Tudalen 9

# Ein gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf

Nodwyd swyddogaethau'r Comisiynydd yn y ddeddfwriaeth a sefydlodd y Comisiwn yn 2006. Ei swyddogaethau yw:

- Hyrwyddo ymwybyddiaeth ynghylch hawliau a buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.
- Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru.
- Annog ymarfer gorau wrth drin pobl hŷn yng Nghymru.
- Adolygu'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

Mae adran hon yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith y Comisiwn dros y flwyddyn ddiwethaf wrth gyflawni'r cyfrifoldebau statudol hyn ac wrth sefyll dros bobl hŷn ledled Cymru a siarad ar eu rhan.

## 1. Gwrando ar bobl hŷn a rhoi cymorth uniongyrchol iddynt

Pobl hŷn sy'n pennu ein blaenoriaethau wrth iddynt ddweud wrthym beth yw'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn wedi cyfarfod â llawer o bobl hŷn ar hyd a lled Cymru er mwyn cael gwybod am y materion a'r pryderon sy'n effeithio arnynt fel bod hyn yn cyfrannu at ein gwaith. Rydym hefyd yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gwaith y Comisiwn gan sicrhau bod pobl hŷn yn

ymwybodol o'r hyn y gallwn ei wneud i'w cefnogi er mwyn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.

Mae gan y Comisiwn Dîm Cymorth ac Ymholiadau sy'n darparu cefnogaeth benodol i bobl hŷn a'r rheini sy'n eu cefnogi (megis gofalwyr, aelodau o'r teulu ac eraill) yn y ffyrdd canlynol:

- rhoi pobl hŷn mewn cysylltiad â mudiadau sy'n gallu eu helpu i gael mynediad at y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt neu i ddarparu cymorth er mwyn datrys problemau

- darparu cymorth uniongyrchol, a all gynnwys eiriolaeth, os yw person hŷn wedi cael anawsterau gyda darparwr gwasanaeth

- cefnogi person hŷn i wneud cwyn ffurfiol a monitro sut y delir â'r gŵyn

Cysylltodd 754 o bobl â Thîm Cymorth ac Ymholiadau'r Comisiwn y llynedd i ofyn am gymorth a chyngor ar amrywiaeth eang o faterion. Y pump peth mwyaf cyffredin yr oedd pobl wedi cysylltu â ni yn eu cylch oedd Gofal (26.3%), Iechyd (16.7%), Cludiant (9.6%), Materion Ariannol (8.2%) a Tai (7.8%).

Nid ydym yn dyblygu gwasanaethau sy'n cael eu cynnig gan asiantaethau a mudiadau eraill, megis llinellau cyngor a gaiff eu darparu gan y Trydydd Sector neu gan Ganolfannau Cyngor Ar Bopeth neu wasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol.

Mae'r materion a godir gyda'n Tîm Cymorth ac Ymholiadau yn rhoi gwybodaeth werthfawr i ni am y materion sydd o bwys i bobl hŷn ac mae hynny, law yn llaw ag ymgysylltu'n uniongyrchol gyda phobl hŷn, yn helpu i lywio ein gwaith.

## Astudiaeth Achos - Trafnidiaeth

Mae trafnidiaeth gyhoeddus dda yn gwbl hanfodol i nifer o bobl hŷn, nid yn unig fel modd i'r rhai nad oes ganddynt drafnidiaeth eu hunain i gael mynediad at wasanaethau hanfodol, ond hefyd i gynnal annibyniaeth trwy fentro allan yn rheolaidd a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Mae cysylltiad cymdeithasol yn lleihau unigrwydd ac unigedd ac mae'n agwedd allweddol o iechyd a lles cyffredinol pobl hŷn.

Gwnaeth nifer fawr o bobl hŷn gysylltu â'r Comisiwn y llynedd i fynegi pryderon am drafnidiaeth yn gyffredinol ond, yn benodol, am gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ei bod am dorri'r cyllid ar gyfer prosiectau Cludiant Cymunedol ledled Cymru. Roedd pobl hŷn yn pryderu y byddai'r toriad arfaethedig hwn mewn cyllid yn gadael nifer ohonynt, yn enwedig y rhai sy'n byw yn ardaloedd gwledig ac anghysbell Cymru, heb unrhyw fath o drafnidiaeth.

Defnyddiwyd gwybodaeth a gasglwyd o'r nifer fawr o lythyron a galwadau ffôn a dderbyniasom tros gyfnod o sawl mis fel tystiolaeth i'w chyflwyno i benderfynwyr allweddol. Cyfarfu'r Comisiynydd â Gweinidog Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros drafnidiaeth a chyflwynodd adroddiadau gan bobl hŷn ynghylch yr effaith o fod heb unrhyw fath o drafnidiaeth ac, i bob pwrpas, o fethu gadael eu tai.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth hon, yn ogystal â gwybodaeth a ddarparwyd gan grwpiau eraill, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym yn fuan wedyn eu bod wedi newid eu meddwl am y penderfyniad i dorri cyllid cludiant cymunedol wrth iddynt gynnal gwerthusiad manwl o'r holl wasanaethau sydd dan fygythiad.

Rhoi cyfle i bobl hŷn leisio eu barn yw un o'r ffyrdd mwyaf pŵerus i sicrhau bod eu pryderon yn cael sylw a'u hanghenion yn cael eu hateb.

## Astudiaeth Achos - Gwasanaethau Cymunedol

Mae cyfyngiadau cyllidebol yn cael effaith anochel ar amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru. Ond ni ddylid defnyddio hyn yn unig i gyfiawnhau cwtogi'r gwasanaethau a ddarperir i bobl hŷn. Mae'n bwysig nad yw'r penderfyniadau anodd sy'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eu gwneud yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn.

Roedd llawer o bobl hŷn a'u cynrychiolwyr wedi cysylltu â'r Comisiwn i godi eu pryderon am weithredoedd eu hawdurdod lleol, ac effaith cwtogi gwasanaethau. Dywedodd llawer wrthym nad oeddent yn teimlo eu bod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Mae'n hanfodol bod pobl hŷn yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn ac yn dibynnu arnynt yn aml, a bod hyn yn cael ei wneud cyn gynted â phosibl mewn modd addas.

Mynegwyd pryderon penodol ynglŷn â'r posibilrwydd o gau canolfannau dydd ledled Cymru. Cysylltodd y Comisiynydd ag awdurdodau lleol ar draws Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd gwrando ar lais pobl hŷn a'r angen i'w gwneud yn rhan annatod o brosesau ymgynghori. Dosbarthwyd y negeseuon hyn i'r cyfryngau ac fe'u cyhoeddwyd mewn papurau newydd mewn ardaloedd a fydd yn cael eu heffeithio gan gau canolfannau dydd yn y dyfodol agos.

Nid dim ond lleoedd sy'n darparu gwasanaethau i bobl hŷn yw Canolfannau Dydd; maent hefyd yn allweddol er mwyn cynnal annibyniaeth a lleddfu unigrwydd ac ynysedd ac, i lawer, maent yn hollol anhepgor.

Bydd pwysau parhaus gan y Comisiwn a phobl hŷn yn cynnwys craffu ar gynlluniau gwario llywodraeth leol, prosesau ymgynghori a gweithredu, a datblygu cynlluniau cymunedol newydd.

## Astudiaeth Achos - Iechyd

Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad 'Gofal Gydag Urddas?' yn 2011, derbyniodd y Comisiwn nifer o lythyrau gan bobl hŷn yn rhannu eu profiad o ofal iechyd yng Nghymru ac yn codi eu pryderon eu hunain.

Cysylltodd un person hŷn â ni er mwyn lleisio pryderon am ei frawd a brofodd ddiffyg preifatrwydd ac urddas yn ei ysbyty lleol.

Dywedodd Mr. R wrthym ei fod wedi sylwi ar nifer o ffenestri ar y llawr gwaelod oedd yn wynebu tuag allan gan alluogi pobl oedd yn mynd heibio i weld yn syth i mewn i'r ward, a bod staff wedi newid dillad ei frawd o flaen y ffenestri hyn.

Cysylltodd y Comisiwn â'r Bwrdd Iechyd er mwyn codi'r mater, gan ofyn am weithredu ar unwaith. Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd ymchwilio ac addawodd ddelio â'r sefyllfa. Gofynnom iddynt roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw ddatblygiadau.

Mewn dim cadarnhaodd y Bwrdd Iechyd fod yr holl ffenestri dan sylw wedi cael gwydrau newydd o ddefnydd adlewyrchol addas, gan sicrhau preifatrwydd llwyr i gleifion y ward. Hefyd, cawsom wybod y bydd pob ffenestr ar y lloriau gwaelod yn cael ei ailwampio yn yr un modd.

Mae'r achos hwn yn amlygu fod y pethau sy'n gwneud gwahaniaeth i urddas pobl hŷn pan fyddant yn yr ysbyty yn aml yn cael eu hesgeuluso, a bod lleisiau uniongyrchol pobl hŷn, sy'n adlewyrchu eu profiadau, yn ffordd bwerus o sbarduno newidiadau a gwelliannau i wasanaethau.

Credwn ei fod yn flaenoriaeth bod y GIG yn cyhoeddi canlyniadau bodlonrwydd cleifion sy'n gadarn ac yn cynnwys asesiad o urddas. Dylid defnyddio'r rhain fel mater o drefn i werthuso a gwella ansawdd gofal cleifion.

Rydym yn gwybod bod ein gwaith yn gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn am eu bod nhw'n dweud hynny wrthym ni.

Dyfyniadau o lythyrau a gawsom gan bobl hŷn yw'r rhain.

"Rydw i'n eithriadol ddiolchgar ... am eich holl help a'ch dyfalbarhad gyda'r mater yma. 'Fedra i ddim diolch digon i chi. Mae urddas y cleifion a pharch wedi cael eu hadfer o'r diwedd."

"Diolch yn fawr iawn i chi am dreulio amser ar yr achos yma ac fel rydw i wedi'i ddweud ar hyd yr amser, mae'n ... fater o egwyddor fel na fydd hyn yn digwydd i bobl hŷn yn y dyfodol."

"Fe hoffwn i ddweud diolch yn fawr i chi am safon y gwasanaeth. Does dim gwasanaethau eirioli ar gael i mi yn fy ardal i. Mae eich cymorth chi drwy gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod o help mawr."

"Roedd bob amser yn braf gwybod bod person mewn asiantaeth ddylanwadol yn pryderu am ein hachos ni."

"Mae'r Comisiwn yn wasanaeth y mae ei wir angen ar gyfer pobl hŷn Cymru."

"Diolch i chi am yr holl help a'r cyfarwyddyd rydw i wedi'i gael gan y Comisiwn ar gyfer Cymru mewn perthynas â'r Bil Cydraddoldeb a'r Lwfans Gweini, gwasanaeth rhagorol iawn ym mhob agwedd."

Yr hyn sy'n tanategu ein holl waith fel cymdeithas sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus yw'r nod o wneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn, mewn ffordd ymarferol a fydd o wir werth iddyn nhw.

Mae rhagor o enghreifftiau o unigolion sydd wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol, i'w cael ar www.olderpeoplewales.com/en/info ynghyd â detholiad o ymatebion gan bobl hŷn.





## 2. Annog ymarfer gorau yng nghyswllt trin pobl hŷn a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru ar raddfa ehangach

### Gofal Cartref

Mae dros 18,800 o bobl dros 65 oed yn derbyn gwasanaethau gofal cartref bob blwyddyn.[6] Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan hollbwysig yng nghyswllt cadw pobl yn annibynnol, a sicrhau eu bod yn cyfrannu at eu cymunedau lleol ac yn rhan o'r cymunedau hynny. Y llynedd, bu i ni gomisiynu ymchwil i'r gwasanaethau gofal hyn, gan ofyn yn uniongyrchol i bobl hŷn beth sy'n werthfawr iddynt o safbwynt yr help maent yn ei gael ac a oes modd gwella agweddau ar y gofal maent yn ei gael.

Daeth dros fil o ymatebion i law, a dadansoddwyd y rhain gan Athrofa Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru.

Byddwn yn rhoi adroddiad ar y gwaith hwn yn nes ymlaen eleni a byddwn yn ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer ein gwaith yn y maes hwn yn 2012/13, gan adlewyrchu'r flaenoriaeth gynyddol y mae'r Comisiwn yn ei rhoi ar reolaeth a dewis mewn gofal cymdeithasol.

### Arian

Mae oddeutu 80,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn llwyr ddibynnol ar Bensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill y llywodraeth heb unrhyw ffynhonnell arall o incwm[7] gydag oddeutu 110,000 o bensiynwyr yng Nghymru yn byw o dan y ffin tlodi (tua 1 pensiynwr ym mhob 5).[8]

Bu'r Comisiwn yn cydweithio â Cyngor Ar Bopeth Cymru i atgyfnerthu ein sylfaen dystiolaeth ymhellach yng nghyswllt y math o faterion sydd o bwys i bobl hŷn. Caiff y dystiolaeth hon ei defnyddio i ddatblygu ein rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod ac i gefnogi gwaith sefydliadau eraill, sef Llywodraeth Cymru'n benodol drwy ei chynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi.

Bu i ni gyfarfod â Gweinidogion y DU a'u herio am bryderon pobl hŷn yng Nghymru ynghylch diwygio pensiynau, credydau pensiwn a budd-daliadau lles. Bu i ni hefyd godi pryderon ynghylch cyllido gofal cymdeithasol a sut y byddai cynlluniau i ymateb i argymhellion Comisiwn Dilnot yn effeithio ar Gymru.

Bu i ni arwain trafodaeth, fel yr unig gynrychiolydd o Gymru, yn Fforwm Cynghori Llywodraeth y DU ar Heneiddio a bennodd anghydraddoldeb mewn pensiynau merched fel y mater pennaf i'r Gweinidog Pensiynau fynd i'r afael ag ef. Ysgogodd hyn y llywodraeth i roi cap o ddeunaw mis ar y cynnydd, gan helpu 250,000 o ferched yng nghanol eu pumdegau ledled y DU a fyddai'n wynebu cynnydd o ddwy flynedd yn oedran codi pensiwn y Wladwriaeth.

## Cludiant

Pobl hŷn sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus fwyaf. Mae cludiant cyhoeddus yn cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd ac iechyd pobl hŷn er na ddeellir yr effaith honno'n iawn. Mae 40% o bobl yn teimlo nad yw eu gwasanaeth bysus lleol yn diwallu eu hanghenion teithio i'r dref leol ac mae 65% yn credu ei fod yn annigonol o ran teithio i'w hysbyty lleol, a allai effeithio ar bobl hŷn sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol fwy nag eraill.[9] Mae'n hanfodol bwysig ymgynghori â phobl hŷn wrth roi polisïau ar waith a fydd yn cael effaith uniongyrchol arnynt a'u dewisiadau o ran teithio.

Roedd llawer o bobl hŷn, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, wedi cysylltu â'r Comisiwn yn codi pryderon am ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus, a mynegwyd pryder penodol am fwriad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i gyllido'r Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol. Roeddynt wedi dweud wrthym eu bod yn dibynnu ar gynlluniau cludiant cymunedol nid yn unig i gael mynediad at amrediad o wasanaethau hanfodol ond hefyd i barhau i fod yn gymdeithasol weithgar ac yn rhan o'u cymuned ac i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu. Mewn ymateb, aethom ati i ysgrifennu at Carl Sargeant, y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, a threfnu i'w gyfarfod, er mwyn mynegi ein pryderon ynghylch effaith y posibilrwydd o ddirwyn gwasanaethau cludiant cymunedol i ben ar bobl hŷn. Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y Gweinidog gynlluniau i ymestyn y cyllid ar gyfer CTCFI ac i gynnal gwerthusiad pellach o'r cynlluniau hyn.

## Tai

Mae pobl hŷn am fyw mor annibynnol â phosibl am gymaint o amser â phosibl. Mae ansawdd eu tai a pha mor addas ydynt yn ffactor sylweddol o ran gallu gwneud hynny.

Mae addasu tai'n briodol a'u hatgyweirio mewn modd amserol o bwys mawr o ran cadw annibyniaeth, helpu i atal codymau ac anafiadau eraill yn y cartref. Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bod 1 ym mhob 3 o bobl sydd dros 65 oed yn byw ar eu pen eu hunain, gyda bron hanner y grŵp hwn yn 85 oed neu hŷn.[10]

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cymru, Age Cymru a Choleg y Therapyddion Galwedigaethol

i gynhyrchu taflen fel bod gan bobl hŷn wybodaeth well am addasu a thrwsio tai. Yn ogystal â bod ar gael ar-lein, dosbarthwyd 40,000 o gopïau o'r daflen ledled Cymru.

## Codi Pryderon

Mae pawb ohonom am sicrhau bod pobl hŷn, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, yn ddiogel. Mae'n hollbwysig i wneud yn siŵr bod y rhai sy'n gofalu am bobl hŷn yn gallu codi pryderon am ansawdd gofal yn ddidrafferth. Gwnaethom gomisiynu Prifysgol Caerdydd i ymchwilio i'r diwylliant yng Nghymru sy'n ymwneud â chodi pryderon mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol (cartrefi gofal a gofal cartref), unrhyw rwystrau i godi pryderon ac effaith hyn ar y gofal a gaiff pobl hŷn.

Bu i ni hefyd ofyn i Public Concern at Work (PCaW) lunio adroddiad i ni yn archwilio'r wybodaeth sydd ganddo ar ei gronfa ddata gan ddatgelwyr camarfer. Yn ogystal â dadansoddi'r data, mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos sy'n rhoi enghreifftiau manwl o'r profiad o ddatgelu camarfer yng Nghymru. Cyhoeddir yr adroddiad ymchwil yn 2012/13 ac mae adroddiad PCAW ar gael ar ein gwefan - http://www.olderpeoplewales.com/en/Publications/pub-story/12-08-08/Raising_concerns_in_the_workplace.aspx.

Byddwn yn defnyddio tystiolaeth o'r ddau adroddiad fel sail ar gyfer trafodaethau ehangach yng Nghymru ynghylch sut y gall diwylliant y gweithle gefnogi'r rheiny sydd am godi pryderon am y gofal a gaiff pobl hŷn.

Mae amddiffyn pobl hŷn sydd mewn perygl o gael eu trin yn wael, o gael niwed neu gamdriniaeth yn flaenoriaeth i ni yng Nghymru.

## Gwybodaeth a Chyngor

Mae gwybodaeth a chyngor yn chwarae rhan bwysig o ran cefnogi annibyniaeth, gwneud penderfyniadau priodol, cynnal iechyd a chynyddu incwm i'r eithaf. Mae hefyd yn golygu y gall pobl hŷn ddod o hyd i'r ychydig bach o help ychwanegol hwnnw sy'n aml iawn ar gael, gan y Trydydd Sector a gan Fudiadau Gwirfoddol, pan fo arnynt ei angen. Oherwydd bod pobl hŷn yn codi'r mater hwn mor aml, bu i ni gomisiynu a llunio trosolwg o'r gwasanaethau gwybodaeth a chyngor cyfredol ledled Cymru. Canfu'r adroddiad hwn bod llawer o arfer da ar waith ond ei fod yn anghyson ac i lawer o bobl hŷn mae cael gafael ar gyngor a gwybodaeth hanfodol yn loteri cod post. O ganlyniad, dydy nifer o bobl hŷn ddim yn gwybod am y cymorth eang a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae hyn yn destun pryder mawr.

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn, aethom ati i gyfarfod â chyrff cyhoeddus ledled Cymru i ganfod meysydd i'w gwella ac enghreifftiau o arfer da a gwnaethom gynnal cynhadledd er mwyn ymgynghori ynghylch canllawiau posibl ar gyfer cyrff cyhoeddus.

Er mwyn adeiladu ar hyn yn 2012/13, byddwn yn cyflwyno canllawiau i'r sector statudol, cyrff rheoledig a rheoleiddwyr ar ddarparu a defnyddio gwybodaeth a chyngor yn effeithiol.

Un o'r sylwadau a glywir fynychaf gan bobl hŷn yw, "Pam na chefais i wybod?" Un o'r pethau mwyaf effeithiol y gallwn ni ei wneud i helpu pobl hŷn i gadw eu hannibyniaeth yw darparu gwybodaeth a chyngor sylfaenol mewn ffordd fwy trefnus sydd wedi ei seilio ar ganlyniadau.

## Cyfeiriadau

[6] Ystadegau Gwasanaethau Cymdeithasol 2010-11 (31 Mawrth 2011)' Llywodraeth Cymru

[7] Pobl hŷn heb unrhyw incwm preifat The Poverty Site: gwefan y DU ar gyfer ystadegau tlodi ac allgáu cymdeithasol, Cymru, adran pobl hŷn. Chwefror 2009

[8] Households Below Average Income: An analysis of the income distribution 1994/95 - 2006/07. Yr Adran Gwaith a Phensiynau. 2008

[9] Ffocws Ystadegol ar Oedran yng Nghymru, Argraffiad 2009 (Llywodraeth Cynulliad Cymru/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

[10] Ffocws Ystadegol ar Bobl Hŷn yng Nghymru, Argraffiad 2008 Llywodraeth Cynulliad Cymru/Y Swyddfa Ystadegau Gwladol




Tudalen 24



Tudalen 25

## 3. Cadw golwg ar effeithiolrwydd deddfwriaeth fel y mae'n berthnasol i bobl hŷn a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cyfleoedd ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn.

Ychydig iawn o bobl hŷn sy'n ymwybodol o'u hawliau dynol ac maent hefyd yn ei chael yn anodd gwybod sut i'w sicrhau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010, a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2010, yn gam ymlaen o ran sicrhau nad yw pobl hŷn sy'n derbyn gwasanaethau, gofal neu gefnogaeth, yn wynebu gwahaniaethu a'u bod yn gallu herio unrhyw wahaniaethu posib. Serch hynny, rydym eto i weld effaith y Ddeddf hon ar fywydau pobl hŷn ac mae'n bwysig bod y rheiny sy'n cefnogi pobl hŷn yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan y ddeddfwriaeth hon.

I ddechrau, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bod oedi pellach yng nghyswllt gweithredu'r ddarpariaeth yn Neddf Cydraddoldeb 2010 ar gyfer dileu gwahaniaethu ar sail oed wrth ddarparu nwyddau, gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Mynegodd y Comisiwn ein hanfodlonrwydd fod gwahaniaethu ar sail oed heb ei weithredu. Bu i ni gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol a chyfarfod â Gweinidog Cydraddoldeb y DU. Yn ddiweddarach, gwnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddiad arall a bydd y gwaharddiad mewn grym o 1 Hydref 2012 ymlaen.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb oedran a rhoi terfyn ar wahaniaethau ar sail oed yn hanfodol i alluogi pobl hŷn i fyw bywyd cyflawn yn rhydd o ragfarn a stereoteipiau negyddol, ond eto mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn wynebu gwahaniaethu o ryw fath neu'i gilydd bob dydd.

Er mwyn rhoi llais uniongyrchol i brofiadau pobl hŷn o safbwynt gwahaniaethu, aethom ati i gomisiynu ymchwil a byddwn yn ei gyhoeddi ar Ddiwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig yn 2012.

## Amddiffyn Oedolion

Mae amddiffyn pobl fregus a dioddefwyr camdriniaeth yn un o flaenoriaethau'r Comisiwn a rhaid i hyn hefyd fod yn flaenoriaeth i Gymru. Mae'n annerbyniol fod tua 34,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn dioddef camdriniaeth, sef un o'r lefelau uchaf yn y DU. Rydym yn dal i alw ar Lywodraeth Cymru i barhau i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth gryfach i amddiffyn oedolion yng Nghymru. Mae cynnwys trefniadau atgyfnerthedig ar gyfer amddiffyn oedolion yn y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol newydd yn gam pwysig ymlaen.

Ym mis Rhagfyr 2011, bu i ni gynnal Cynhadledd Cam-drin Pobl Hŷn gydag Age Cymru i drin a thrafod sut i fanteisio i'r eithaf ar botensial y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol newydd er mwyn atal a delio â chamdriniaeth, gan helpu i gryfhau ein gwybodaeth am y mater hwn a dod i gytundeb, ledled Cymru, ynghylch y ffordd ymlaen.

Byddwn yn parhau i roi cyngor ar y ffordd orau i gefnogi a diwallu anghenion pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig. Rydym wedi gweithredu fel cynghorydd ar gyfer cynllun peilot Mynediad at Gyfiawnder i Bobl Hŷn Llywodraeth Cymru a oedd ar waith yn Abertawe gydol 2011. Mae Prifysgol Aberystwyth yn gwerthuso'r cynllun peilot ac edrychwn ymlaen at ganfyddiadau'r gwerthusiad hwnnw.

Lansiwyd y canllaw ‘Amddiffyn Pobl Hŷn yng Nghymru: Canllaw i’r Gyfraith’ ar Ddiwrnod Ymwybyddiaeth Fyd-eang o Gam-drin Pobl Hŷn 2011 (Mehefin 15) i helpu ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, eiriolwyr annibynnol, myfyrwyr, cyfreithwyr a pherthnasau pobl hŷn i ddeall y gyfraith bresennol yn ogystal â lleihau’r dryswch am y gyfraith.

Dosbarthwyd dros fil o gopïau o’r canllaw hwn dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae’n cael ei lwytho oddi ar ein gwefan ac oddi ar wefannau sefydliadau eraill yn rheolaidd.

## 4. Craffu ar gyrff cyhoeddus a gwasanaethau rheoledig eraill

Pobl hŷn sy’n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus fwyaf. Felly, mae’n hanfodol fod y rheiny sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus yn deall anghenion pobl hŷn ac yn rhoi cefnogaeth a gofal mewn ffordd sy’n diwallu’r anghenion hyn yn effeithiol, gan gynnwys materion diwylliannol. Er bod llawer enghraifft o ymarfer nodedig yng Nghymru, mae pobl hŷn yn cael eu siomi gan y gwasanaethau cyhoeddus yn llawer rhy aml. Yn ein gwaith yn ystod 2011/12 rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

### Adolygiad Gofal Gydag Urddas?

Canfu ein hadolygiad ‘Gofal Gydag Urddas?’ enghreifftiau o bobl hŷn yn cael triniaeth warthus o annigonol mewn ysbytai yng Nghymru. Gwnaethom ddeuddeg argymhelliad ymarferol ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru gyda’r nod o wella’r ffordd mae pobl hŷn yn cael eu trin ac i ddiogelu eu hurddas.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn cydweithio â'r GIG ac eraill yng Nghymru i adolygu'r cynnydd a fu, rhannu arfer da a chefnogi gwelliannau yn ansawdd y gofal. Erbyn hyn mae gan yr holl Fyrddau Iechyd, yr Ymddiriedolaeth, a Llywodraeth Cymru gynlluniau gweithredu clir ar waith. O ganlyniad i'n hargymhellion, bellach mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal hapwiriadau urddas yn ddirybudd mewn ysbytai yng Nghymru, mae mwy o fetronau ar y wardiau, mae urddas a pharch yn flaenoriaeth Haen Un i'r GIG, ac mae gwasanaethau dementia yn cael eu gwella.

Yn hydref 2012 byddwn yn cynnal cynhadledd Urddas ar y cyd ag Age Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a byddwn yn cyhoeddi ein sylwadau ar y cynnydd a fu hyd yma o ran cyflawni'r camau y mae'r GIG ac eraill yng Nghymru wedi cytuno arnynt.

## Adolygu'r Ddarpariaeth o Eiriolaeth mewn cartrefi gofal

Mae'r bobl hŷn sydd wedi defnyddio gwasanaethau eiriolaeth yn gweld gwerth mawr iawn ynddynt. Yng nghyswllt pobl sy'n ystyried mynd i gartref gofal neu sy'n byw mewn cartref gofal, neu pan fo'r cartref gofal yn cau, mae'r gwasanaethau hyn yn hanfodol bwysig. Fodd bynnag, nid yw'r cymorth eiriolaeth hwn ar gael i lawer o bobl hŷn. Er mwyn rhoi llais uniongyrchol i bobl hŷn yng nghyswllt y mater hwn, gwnaeth y Comisiwn lansio Adolygiad o eiriolaeth mewn cartrefi gofal yng Nghymru ym mis Medi 2011, gan asesu a oedd y trefniadau cyfredol yn effeithiol o ran diogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn, ac i ba raddau yr oeddynt yn effeithiol.

Cawsom wybodaeth gan lawer o gartrefi gofal yn yr holl Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch y trefniadau eirioli oedd ar waith. Bu i ni gyfweld preswylwyr mewn cartrefi gofal ledled Cymru (yn ogystal â pherthnasau, rheolwyr cartrefi gofal a staff cartrefi gofal), er mwyn sicrhau bod eu lleisiau a'u profiadau wrth galon ein canfyddiadau. Yn dilyn ein hymchwil, byddwn yn cyhoeddi argymhellion yn hydref 2012 gyda'r nod o greu newid parhaol yn y ffordd y caiff eiriolaeth ei ddirnad a'i ddeall, a gwella cysondeb ac ansawdd gwasanaethau eirioli annibynnol ledled Cymru.

## Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gau Cartrefi Gofal

Mae pobl hŷn a'u teuluoedd yn codi pryderon yn barhaus â'r Comisiwn ynghylch buddiannau'r rheiny sy'n byw mewn cartrefi gofal, yn enwedig cartrefi gofal sy'n cau. Nid yw rhai pobl yn cael y cymorth y dylent ei gael ac sydd ei angen arnynt, pan fo'r cartrefi maent yn byw ynddynt yn cau.

Gwnaethom ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru i nodi cyfyngiadau'r canllawiau cyfredol a gwneud argymhellion ar gyfer eu cryfhau. Roedd y rhain yn cynnwys argymhellion i gynyddu mynediad at wasanaethau eirioli annibynnol i bobl hŷn a chamau i gyflawni'r ddyletswydd gyfreithiol i ddarparu Eiriolwyr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol mewn rhai amgylchiadau penodol. Roedd yr adroddiad hefyd yn galw am gynnwys arferion da o Gymru ac o leoedd eraill yn y DU yn y canllawiau diwygiedig (www.olderpeoplewales.com/en/info).

Erbyn hyn, cafwyd cytundeb y bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi yn 2013.

## Blaenarchwiliad

Oddi mewn i Gymru mae gennym nifer o wasanaethau cyhoeddus y gallwn fod yn falch ohonyn nhw. Fodd bynnag, cwyd pobl hŷn yn gyson gyda'r Comisiwn nifer o faterion y bydd rhaid i'n gwasanaethau cyhoeddus fynd i'r afael â nhw.

- Yn aml mae diffyg cyswllt wrth ddarparu gwasanaeth
- Gwasanaethau mewn amser priodol a rhwyddineb cael atyn nhw
- Y graddau y mae ganddyn nhw rywfaint o lais, dewis a rheolaeth yn y ffordd y darperir gwasanaethau.

Fel rhan o'n harchwiliad presennol darganfu'r Comisiwn sawl enghraifft o ymarfer da ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus. Sut bynnag, bydd rhaid i ni yng Nghymru wella wrth ddefnyddio'r wybodaeth a'r enghreifftiau o ymarfer da sydd gennym, a sicrhau bod ymarfer da yn dod yn gyffredin.

Er bod gan y Comisiwn rôl glir i'w chwarae yn cefnogi hyn, byddwn yn gwneud rhagor o waith craffu ar wasanaethau, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, a lle tybiwn fod hynny'n briodol, byddwn yn gosod disgwyliadau penodol yng nghyswllt darparu gwasanaethau. Lle bo hynny'n angenrheidiol, bydd hyn yn golygu arfer ein pwerau statudol, yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddi canllawiau.



Tudalen 32



# Edrych Tua'r Dyfodol

Fel y Comisiynydd newydd, rwyf yn gosod pum blaenoriaeth ar gyfer y Comisiwn yn fy mhedwar mis cyntaf yn y swydd.
Y rhain yw:

1 Adeiladu ar ein hymgysylltiad â phobl hŷn ledled Cymru a sicrhau ein bod yn siarad yn uniongyrchol â mwy o bobl hŷn nag erioed o'r blaen ac yn gwrando arnynt, gan gynnwys y rhai na chlywir eu llais yn aml. Dechreuodd ein Sioe Deithiol Ymgysylltu ar fy niwrnod cyntaf yn y swydd a bydd yn parhau am y pedair blynedd nesaf. (http://www.olderpeoplewales.com/en/Home/Roadshow.aspx)

2 Llunio a chyhoeddi rhaglen waith ddylanwadol ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'n glir yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y flwyddyn nesaf. Cyhoeddwyd hon ym mis Awst 2012, a hi yw ein rhaglen waith gyntaf i gael ei chyhoeddi. Mae copi ohoni i'w weld yma (www.olderpeoplewales.com/en/info)

3 Meithrin a datblygu partneriaethau effeithiol ag ystod o fudiadau a sefydliadau ar draws y Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol a'r Trydydd Sector gyda golwg ar gysoni ein gwaith, rhannu ein hadnoddau, ein gwybodaeth a'n sgiliau, a sefydlu cytundeb cadarn ynghylch yr hyn rydym i gyd am ei gyflawni.

4 Codi proffil materion sydd o bwys i bobl hŷn, gyda phwyslais penodol ar frwydro yn erbyn stereoteipiau negyddol o bobl hŷn yn y cyfryngau. (www.olderpeoplewales.com/en/info)

5 Llunio, cyhoeddi a thrafod Cynllun Strategol pedair blynedd newydd y Comisiwn, gan nodi'r prif heriau, yn fy marn i, sy'n ein hwynebu yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn ogystal â blaenoriaethau penodol y Comisiwn yn y pedair blynedd nesaf.
(www.olderpeoplewales.com/en/info)

Fel Comisiynydd, fy swyddogaeth hefyd yw pennu'r blaenoriaethau ar gyfer gwaith y Comisiwn dros y flwyddyn nesaf. Mae'r rhain wedi'u seilio ar yr hyn y mae pobl hŷn, a'r rheiny sy'n cefnogi pobl hŷn, wedi dweud wrthym sy'n bwysig iddynt hwy. Yn 2012/13, bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Herio gwahaniaethu ar sail oed
- Lleddfu pryderon ariannol a thlodi
- Talu am ofal cymdeithasol, a mynediad at y gofal hwnnw
- Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl
- Datblygu gwasanaethau cyhoeddus gwell
- Gwasanaethau a chymorth dementia
- Trefniadau eiriolaeth mewn cartrefi gofal
- Darparu gwybodaeth a chyngor
- Amddiffyn a diogelu oedolion
- Urddas a pharch mewn ysbytai
- Heneiddio'n Dda yng Nghymru

Byddaf hefyd yn cyhoeddi gwerthusiad o'r cynnydd a wnaed gan y GIG yng Nghymru yng nghyswllt gwella urddas mewn gofal.

Yn ogystal â'r ystod o waith yng nghyswllt y materion uchod, dros y flwyddyn nesaf byddwn hefyd yn:

- Cynyddu ein cymorth uniongyrchol i bobl hŷn drwy ein Tîm Cymorth ac Ymholiadau ac yn parhau i ddefnyddio lleisiau unigolion i sbarduno newid ar gyfer rhagor o bobl hŷn.

- Llunio rhaglen waith newydd ar ffurf partneriaeth amlasiantaeth newydd sy'n canolbwyntio ar y cysyniad o Heneiddio'n Dda. Bydd hyn yn cefnogi Cymru i gynllunio a pharatoi'n well ar gyfer anghenion poblogaeth sy'n heneiddio.

- Arwain y gwaith o ddatblygu dull integredig ar draws Cymru o gynnal ymchwil sy'n ymwneud â phobl hŷn a materion sydd o bwys i bobl hŷn. Y nod fydd manteisio i'r eithaf ar y cyllid sydd ar gael i gefnogi ymchwil a'i ddefnyddio'n ymarferol.

- Codi ymwybyddiaeth o wahaniaethu ar sail oed a'r angen am hawliau cyfreithiol cryfach i bobl hŷn. Gellir defnyddio'r rhain i ddiogelu pobl hŷn yn well yng Nghymru a sicrhau eu bod yn derbyn y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

- Cefnogi datblygiad deddfwriaeth Cymru i sicrhau ei bod yn adlewyrchu anghenion pobl hŷn yn ddigonol a'i bod yn canolbwyntio ar effaith a chanlyniadau.

- Cymryd camau gweithredu penodol i sicrhau bod gan bobl hŷn lais cryf pan fyddant mewn sefyllfaoedd bregus iawn, megis adeg cau cartref gofal.

- Monitro effaith cwtogi gwasanaethau ar bobl hŷn, er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith anghymesur ar bobl hŷn.

- Cryfhau llais uniongyrchol pobl hŷn o safbwynt ymgysylltu ac ymgynghori â nhw am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

Bydd fy Nghynllun Strategol pedair blynedd newydd yn nodi nifer o heriau i bob un ohonom yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Fel Comisiynydd, byddaf yn cynorthwyo ac yn cydweithio â'r Sectorau Cyhoeddus a Gwirfoddol a'r Trydydd Sector ledled Cymru i wneud mwy. Lle bo angen, byddaf hefyd yn pennu disgwyliadau clir o ran camau i'w cymryd ac yn gofyn am dystiolaeth eu bod wedi cael eu rhoi ar waith a'u heffaith.

Rydym wedi gwneud llawer i bobl hŷn yng Nghymru, ond mae angen i ni wneud mwy. Mae angen i ni sicrhau bod arferion gorau yn dod yn ymarfer safonol, bod pobl hŷn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael y cymorth a'r gefnogaeth y mae arnynt ei angen, nid yn unig pan maent mewn perygl o niwed, ond i'w helpu i barhau i fod yn annibynnol ac i gael bywyd ystyrlon a gwerthfawr. Rhaid i bob un ohonom yn y gwasanaethau cyhoeddus chwarae ein rhan i wireddu hyn. Dyma'r her rydw i, fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, wedi'i osod i mi fy hun ac i bob un ohonom yng Nghymru sy'n poeni am bobl hŷn, yn gofalu amdanynt ac sy'n gyfrifol am eu cefnogi.

Rwy'n edrych ymlaen at fy mhedair blynedd fel Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac at wneud fy rhan yn y gwaith o sicrhau bod Cymru yn lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig, ond i bawb.

*Sarah Rochira*



Tudalen 38



Tudalen 39

# Sut rydym yn mynd ati i wneud ein gwaith

## Ein staff

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gyflogi 25.42 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (27.04 yn 2010/11). Mae rhagor o wybodaeth am bolisi taliadau'r Comisiynydd ar gael yn Adroddiad Taliadau'r Cyfrifon Blynyddol.

Bu i ni ennill statws Buddsoddwr mewn Pobl ym mis Mehefin 2011. Roedd hyn yn adeiladu ar y llwyddiant a gawsom y flwyddyn flaenorol drwy ennill statws efydd yng Ngwobrau Iechyd Gweithle Bach Llywodraeth Cymru. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac rydym am gyflogi gweithlu amrywiol.

Yn ystod 2011/12 cynhaliodd y Comisiwn ymgynghoriad ar ei Gynllun Cydraddoldeb fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â dyletswyddau cyhoeddus Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae copi o'r cynllun ar gael ar ein gwefan.

## Cyllideb

Ariennir y Comisiwn gan Lywodraeth Cymru ond, yn weithredol, mae'n annibynnol arni. Mae'n atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddefnyddio adnoddau. Yn 2011/12 derbyniodd y Comisiwn gyllid gwerth £7.747 miliwn i ariannu ei weithgareddau.

Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrif archwilio ddiamod ar gyfer Cyfrifon Blynyddol 2011-12.

## Llywodraethu da

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, y Comisiynydd sy'n gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a rheoli adnoddau yn ei sefydliad (y Comisiwn), gan gynnwys trefniadau llywodraethu cadarn a chanfod a rheoli risg. Mae'r trefniadau hyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu yn y Cyfrifon Blynyddol.

Ym marn yr archwilwyr mewnol, ar sail y gwaith a wnaed yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2012, mae gan y Comisiwn system rheolaeth fewnol gadarn a dylai hyn ddarparu sicrwydd sylweddol o ran cyflawni amcanion y Comisiwn. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn llunio dangosyddion perfformiad tryloyw i fesur effaith gwaith y Comisiwn.

Rhoddwyd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch yr wybodaeth sydd gan y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys data personol sy'n ymwneud ag ymholiadau a wnaed ar ran unigolion hŷn penodol yng Nghymru, a thystiolaeth mae'r Comisiynydd wedi'i chasglu wrth gyflawni ei swyddogaethau. Ni chafwyd unrhyw achos o dorri diogelwch data yn 2011/12.

Yn 2011-2012 ni chafwyd ond un gŵyn ffurfiol i'r Comisiynydd a oedd yn galw am gynnal ymchwiliad dan ein gweithdrefn gwynion. Ymchwiliwyd i'r gŵyn ond ni chafodd ei chyfiawnhau.

Daeth pedwar cais i law dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac un cais gwrthrych am wybodaeth dan y Ddeddf Diogelu Data.

Bu i ni hefyd gyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar ein Cynllun Iaith Gymraeg. Mae copi o'r cynllun i gael ar ein gwefan (www.olderpeoplewales.com/en/info).

Mae Cyfrifon Blynyddol archwiliedig 2011-12 ar gael ar ein gwefan www.olderpeoplewales.com neu ar gais drwy gysylltu â ni drwy anfon e-bost at ask@olderpeoplewales.com neu drwy ein ffonio ar 08442 640670.

## Diolchiadau a Chydnabyddiaeth

Hoffwn ddiolch yn ffurfiol i staff y Comisiwn, ein holl bartneriaid, a'n cydweithwyr ym mhob rhan o Gymru sydd wedi ein helpu i symud ymlaen â'n gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn fwy na dim, hoffwn ddiolch i'r holl bobl hŷn – ac mae llawer iawn ohonynt - ac i'r rhai sy'n rhoi cymorth a gofal iddynt am roi mor hael o'u hamser, eu doethineb a'u gwybodaeth ac sydd, ar adegau, wedi rhannu eu gobeithion a'u hofnau â ni.

## Dogfennau

Mae unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt yn yr Adroddiad hwn ar gael ar ein gwefan, sef www.olderpeoplewales.com neu ar gais.

Gallwch gael copi o'r cyfrifon blynyddol archwiliedig llawn ar gyfer 2010-11. Anfonwch e-bost at ask@olderpeoplewales.com neu gallwch eu gweld ar ein gwefan.

Nid yw unrhyw rai o'r lluniau a ddefnyddiwyd yn yr Adroddiad hwn yn gysylltiedig â'r astudiaethau achos a'r enwau cyswllt sydd wedi'u crybwyll yn yr Adroddiad. Fodd bynnag, lluniau o bobl rydym wedi cyfarfod a sgysrsio â nhw wrth inni gyflawni ein gwaith yw'r holl luniau a geir yn yr adroddiad hwn.

## Cysylltu â ni

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru, os oes gennych ymholiad neu os hoffech inni ddod i gyfarfod â chi, cysylltwch â ni:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru,
Adeiladau Cambrian,
Sgwâr Mount Stuart,
Caerdydd,
CF10 5FL

**Ffôn:** 08442 640670
**E-bost:** ask@olderpeoplewales.com

**I wneud Cymru yn lle da i heneiddio, nid i rai pobl yn unig, ond i bawb**



Tudalen 44

# COMISIYNYDD POBL HŶN CYMRU

# LLAIS AC EIRIOLWR ANNIBYNNOL AR GYFER POBL HŶN LEDLED CYMRU

Diolch i bawb a roddodd o'u hamser i gwrdd â ni a rhannu eu sylwadau, eu gobeithion a'u hofnau, a diolch arbennig i bawb a gytunodd i ni ddefnyddio eu lluniau yn yr adroddiad hwn.

---

Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn braille, print bras neu sain, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda: www.olderpeoplewales.co.uk

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 3 Hydref 2012** |
| Amser: | **10:00 - 12:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_03_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Gwenda Thomas, Y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>**Rob Pickford, Director of Social Services Wales, Llywodraeth Cymru**<br>**Martin Swain, Llywodraeth Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd ymddiheuriadau ac nid oedd dirprwyon.

1.2 Cytunodd y Pwyllgor i ail-drefnu trefn y busnes, i gymryd eitem 2 olaf.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer Eitem 5

4.1 Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried ei adroddiad drafft ar atal thrombo-emboledd gwythiennol ymhlith cleifion mewn ysbytai yng Nghymru.

## 5. Ymchwiliad un-dydd ynghylch atal thrombo-emboledd gwythiennol ymhlith cleifion mewn ysbytai yng Nghymru - Trafod yr adroddiad drafft

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft.

5.2 Cafodd y Pwyllgor egwyl rhwng 10:30 a 11:05.

## 2. Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol

2.1 Atebodd y Dirprwy Weinidog gwestiynau aelodau'r Pwyllgor

2.2 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i rannu cerdyn â'r Pwyllgor sy'n cael ei ddatblygu ar y cyd â'r Gymdeithas Alzheimer i'w ddefnyddio gan bobl sydd â dementia.

2.3 Cytunodd y Dirprwy Weinidog i ysgrifennu at y Pwyllgor yn rhoi gwybodaeth am y cynnydd a wnaed ers penodi Llysgennad Cyflogaeth Awtistiaeth Cymru.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 11 Hydref 2012** |
| Amser: | **09:30 - 14:15** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_800000_11_10_2012&t=0&l=cy
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200003_11_10_2012&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Mark Drakeford (Cadeirydd)**<br>**Mick Antoniw**<br>**Rebecca Evans**<br>**Vaughan Gething**<br>**William Graham**<br>**Elin Jones**<br>**Darren Millar**<br>**Lynne Neagle**<br>**Lindsay Whittle**<br>**Kirsty Williams** |
| Tystion: | **Sally Baxter, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>**Neil Bradshaw, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>**Kathryn Davies, Bwrdd Iechyd Hywel Dda**<br>**Heather Eardley, Cymdeithas y Cleifion**<br>**Dr Brendan Harrington, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>**Geoff Lang, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**<br>**Ann Lloyd, Cymdeithas y Cleifion**<br>**Chris Martin, Bwrdd Iechyd Hywel Dda**<br>**Trevor Purt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda**<br>**Chris Wright, Bwrdd Iechyd Hywel Dda** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Dafydd (Clerc)**<br>**Catherine Hunt (Dirprwy Glerc)**<br>**Victoria Paris (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2. Cynlluniau i ad-drefnu byrddau iechyd - Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda

2.1 Atebodd y tystion y cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

2.2 Cytunodd y tystion i ddarparu copi o'r llythyr gan y Fforwm Clinigol Cenedlaethol at y bwrdd iechyd ar ôl eu cyfarfod cyn yr ymgynghoriad ym mis Mehefin 2012.

## 3. Cynlluniau i ad-drefnu byrddau iechyd - Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr

3.1 Atebodd y tystion y cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

## 4. Cynlluniau i ad-drefnu byrddau iechyd - Cymdeithas y Cleifion

4.1 Atebodd y tystion y cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd Ms Eardley i ddarparu copi o'r canllaw i ymgysylltiad cleifion Cymdeithas y Cleifion.

## 5. Papurau i'w nodi

5.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi.

5.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.